# Fforwm Rheoli Tir Cymru (WLMF) Cofnodion

**Teitl y cyfarfod:** Fforwm Rheoli Tir Cymru (y Fforwm Rheoli Tir)

**Lleoliad:** Cyfarfod dros Microsoft Teams

**Dyddiad y Cyfarfod:** 5 Medi 2022

**Yn bresennol:**

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Martyn Evans, CNC

David Letellier, CNC

Marc Williams, CNC

Sarah Hetherington, CNC

Dennis Matheson, TFA

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Hedd Pugh, NFU Cymru

Anthony Geddes, Confor

John Browne, CNC

Bernard Griffiths, Undeb Amaethwyr Cymru

Tim Kirk, Confor

Lee Pritchard, CFfI Cymru

**Unigolion eraill a oedd yn bresennol:**

Sian Williams, CNC

Tracey Dunford, CNC (Eitem 3)

Brendan Hardiman, CNC (Eitem 4)

Sue Ginley, CNC (Eitem 5)

Nick Thomas (Eitem 6)

**Ysgrifenyddiaeth(au):**

Bronwen Martin, CNC

**Ymddiheuriadau:**

Ruth Jenkins, CNC

Fraser McAuley, CLA

## Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd Zoe Henderson (Cadeirydd y Fforwm) bawb i'r cyfarfod gan nodi'r ymddiheuriadau. Estynnodd groeso i'r gwesteion hefyd a chydnabod bod dau gynrychiolydd newydd yn ymuno â'r grŵp; Lee Pritchard, Swyddog Materion Gwledig CFfI Cymru a David Letellier, Rheolwr Tir Cynaliadwy CNC.

2. Ni wnaed unrhyw ddatganiadau o fuddiant mewn cysylltiad â'r eitemau ar yr Agenda.

3. Atgoffwyd y grŵp bod y cyfarfod yn cael ei recordio at ddiben y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cwblhau.

## Eitem 2 Cofnodion y cyfarfod diwethaf, camau gweithredu a materion sy'n codi

4. Mae cofnodion y cyfarfod wedi'u hadolygu a'u cytuno'n ffurfiol, a byddant yn cael eu cyfieithu a'u cyhoeddi ar wefan CNC. Bu'r Grŵp yn adolygu cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mehefin 2022. Cafodd y cofnodion eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

5. Adolygwyd y camau gweithredu oedd yn weddill a darparwyd diweddariadau. Nodwyd y canlynol:

    - PG 06 Mawrth:  Marc Williams, CNC i ofyn i gydweithwyr pwy sy'n arwain ar ddiweddariad gwefan CNC ar gyfer Creu Coetiroedd a chysylltu ag Anthony Geddes, Confor.

    \- Cadarnhaodd Anthony nad oes unrhyw un wedi cysylltu ag ef, dywedodd Marc y byddai'n mynd ar drywydd hyn eto.

    - PG Mehefin 01: Bronwen Martin, CNC i fynd ar drywydd y cais am gyfarfod i drafod ailgyflwyno afancod.

- Cadarnhaodd Bronwen fod y cais wedi'i drosglwyddo i gydweithwyr CNC yn y Tîm Rhywogaethau er mwyn trefnu cyfarfod yn uniongyrchol gyda NFU Cymru i drafod y pwnc yma.

- PG Mehefin 08: Marc Williams, CNC i edrych ar gydlynu sgwrs rhwng NFU Cymru, CNC a Dŵr Cymru i drafod adroddiad a gwaith modelu afonydd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig.

- Dywedodd Marc fod cyfarfod wedi'i gynnal ond bydd trafodaethau ynglŷn â'r gwaith modelu'n parhau wrth symud ymlaen.

- Yn dilyn cyhoeddi'r adroddiad ychydig cyn i'r Uwchgynhadledd Ffosffad gael ei chynnal yn Sioe Frenhinol Cymru (Y Sioe Fawr), dywedodd Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru ei bod wedi edrych yn fanwl iawn arno ac wedi cyflwyno nifer o gwestiynau ysgrifenedig yn ôl i Dŵr Cymru er mwyn egluro a gwella eu dealltwriaeth o'r modelu. Cafodd copi o'r cwestiynau ei rannu gyda CNC, ond ni chafwyd ymateb hyd yma. Dywedodd Rachel y byddai'n rhannu'r ymateb pan ddaw i law. Deallir hefyd bod CNC wedi comisiynu proses Sicrwydd Ansawdd o'r gwaith modelu ac y byddai gan NFU Cymru ddiddordeb mawr mewn cael diweddariad ar hynny neu weld y fanyleb waith yn unig, os yw ar gael.

- Dywedodd Bronwen nad oedd y pwnc hwn yn rhan o Ddiweddariadau Fforwm Rheoli Tir CNC ar gyfer y cyfarfod hwn, ond mae yna ddiddordeb cyffredin gyda'r Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir. Awgrymodd Bronwen efallai y byddwn yn trafod hyn yn fanylach yng nghyfarfodydd yr Is-grŵp yn y dyfodol.

- Gofynnodd Anthony Geddes, Confor a fydd unrhyw drafodaethau'r Is-grŵp yn cael eu hadrodd yn ôl yma. Roedd pecyn tystiolaeth ar gael yn dilyn yr Uwchgynhadledd Ffosffad yn y Sioe Fawr. Roedd rhai sylwadau eithaf diddorol am wahanol ddefnydd tir ac effeithiau ffosffad.

- Dyma ddatganiad ysgrifenedig y Prif Weinidog ar yr Uwchgynhadledd Llygredd Afonydd yn y Sioe Fawr - Llywodraeth Cymru - Datganiad Ysgrifenedig: Cynhadledd i drafod llygredd afonydd

- Dyma ddatganiad ysgrifenedig y Prif Weinidog am Uwchgynhadledd Llygredd Afonydd yn y Sioe Fawr - Llywodraeth Cymru - Uwchgynhadledd Afonydd SAC (Pecyn Gwybodaeth a Thystiolaeth)

- Dywedodd Sian Williams, CNC bod CNC yn cefnogi Llywodraeth Cymru i ddarparu tystiolaeth tuag at y pecyn tystiolaeth a bod hynny wedi'i ddosbarthu i bawb oedd yn yr uwchgynhadledd. Mae'n canolbwyntio ar y dystiolaeth am ffosffadau mewn afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig, sef union fwriad y gynhadledd. Cafodd yr uwchgynhadledd ei llywio'n bennaf gan gyfyngiadau'r broses gynllunio ar hyn o bryd a sut gallem weithio ar draws y sbectrwm cyfan, gan gynnwys CNC, Dŵr Cymru, tirfeddianwyr, cynllunwyr, adeiladwyr tai a phawb arall a all fod yn berthnasol. Y nod oedd meddwl sut allen ni i gyd weithio gyda'n gilydd a beth allen ni i gyd ei wneud i wella'r sefyllfa. Roedd Prif Weinidog Cymru'n glir iawn am fod yn bositif. Cafwyd datganiad ysgrifenedig gan y Prif Weinidog, gan gynnwys wyth ymrwymiad gwahanol ar ffosffadau a beth fyddai'n digwydd nesaf. Un o'r prif bethau yw bod Llywodraeth Cymru'n arwain ar adolygiad o lywodraethu dŵr ac ansawdd dŵr. Rydym yn ystyried beth mae CNC yn ei wneud o ran rheoli dŵr hefyd, p'un a

ydym yn gwneud y pethau cywir yn fewnol i gyflawni'r hyn yr hoffem ei gyflawni yn y tymor hir ac a fydd yn cyd-fynd ag adolygiad Llywodraeth Cymru hefyd. Does dim dyddiad eto ar gyfer cyfarfod dilynol i'r uwchgynhadledd, ond cafwyd ymrwymiad i waith dilynol ac atebolrwydd ynghylch ein hymrwymiadau a beth y byddem yn ei wneud nesaf.

- Dywedodd Dennis Matheson, TFA nad oedd yn gwybod dim byd am yr uwchgynhadledd ac na wnaeth TFA Cymru gymryd rhan o'r herwydd. Gofynnodd Dennis a yw hon yn fenter ar wahân gan ei fod yn bwnc sydd wedi'i drafod gydag Is-grŵp WLMF ers sawl blwyddyn. Awgrymodd Dennis mai'r Is-grŵp, nid corff arall, ddylai fod yn ymdrin â hyn. Dywedodd Sian mai'r cyfyngiadau ar gynllunio wnaeth lywio hyn, yn hytrach nag anghenion amgylcheddol, ond yn amlwg mae cysylltiad agos iawn rhwng y ddau beth. Dywedodd Dennis ei bod hi'n hollbwysig cydlynu'r holl bethau hyn.

## Diweddariad Eitem 3: Tywydd sych

6. Ymunodd Tracey Dunford, CNC â'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa'r tywydd sych. Mae Tracey yn Gynllunydd Adnoddau Dŵr Arbenigol Arweiniol i CNC a hi yw Cydlynydd Sychder CNC hefyd.

7. Rhoddodd drosolwg o batrwm glaw'r 6 mis diwethaf. Roedd llawer o law ym mis Chwefror ond ers hynny mae pob mis wedi bod yn llawer is na'r cyfartaledd tymor hir (gan ddefnyddio cyfnod 1981- 2010 fel cyfartaledd tymor hir). Bu rhywfaint o law ym mis Gorffennaf, ond roedd mis Awst yn sych iawn (llai na 50% o'r cyfartaledd tymor hir). Efallai bod y de wedi bod yn sychach na'r gogledd-orllewin. Yn gyffredinol, byrhoedlog fu'r glaw dros y misoedd diwethaf sydd wedi achosi i afonydd gilio heb unrhyw adferiad sylweddol ar ôl glawiad.

8. O gymharu â blynyddoedd sychder blaenorol, y chwe mis diwethaf yw'r sychaf ond dau a gofnodwyd ers 1865, a'r unig flynyddoedd pan oedd yn sychach yn ystod y chwe mis yna oedd 1976 a 1984. 2022 oedd yr haf cynhesaf ond saith sydd wedi’i gofnodi.

9. Disgrifiodd Tracey fapiau glawiad sy'n cymharu'r 6 mis cyfatebol (Mawrth i Awst) ym 1976 o gymharu â 2022. Aeth ati i grynhoi rhywfaint o ddata llif afon cymedrig misol hefyd. Yn gyffredinol, mae llif cymedrig misol afonydd Cymru ymhell islaw'r cyfartaledd. O ganlyniad, mae'r llif cymedrig dyddiol wedi bod yn eithriadol o isel am yr adeg o'r flwyddyn.

10. Mae dŵr daear yn arbennig o isel hefyd ac, mewn rhai achosion, yn eithriadol o isel ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn. Mae angen llawer o law i helpu i ailgyflenwi dŵr daear, sy'n werth ei nodi ar gyfer rhai sy'n ddibynnol ar ffynhonnell dŵr daear.

11. Fe wnaeth Tracey grynhoi'r broses adolygu o safbwynt camau statws (e.e., cyfnod hir o dywydd sych, sychder ac ati) ynghyd â'r sbardunau a'r effeithiau posibl. Mae camau gwahanol wedi eu cyhoeddi mewn ardaloedd gwahanol ledled Cymru yn ystod yr wythnosau diwethaf. Soniodd Tracey am bwysigrwydd cyfathrebu â dalgylchoedd a sefydliadau.

12. Does gan CNC ddim cam 'sychder difrifol', yn wahanol i rai cwmnïau dŵr. Mae CNC yn cydnabod bod 'sychder' yn cynnwys sbectrwm cyfan o risgiau sy'n cynyddu o ran difrifoldeb cynyddol. Ar hyn o bryd, y prif bryder yw cyflenwad dŵr i ardal Sir Benfro, ac

felly mae CNC yn siarad â'r cwmni dŵr (Dŵr Cymru) ynglŷn â'r mesurau maen nhw'n eu cymryd. Mae CNC a Dŵr Cymru yn cadw llygad barcud ar ffynonellau eraill ar hyd a lled y wlad hefyd, ynghyd â Hafren Dyfrdwy.

13. Gwelwyd effeithiau ar yr amgylchedd hefyd fel lladd pysgod, pysgod mewn trallod (yn enwedig gyda'r tonnau gwres a'r tywydd crasboeth) ac afonydd yn sychu o Fôn i Fynwy. Bu rhai achosion o algâu glas hefyd a rhai pryderon ynghylch llygredd ac ansawdd dŵr.

14. Mae CNC yn cyfathrebu â sectorau ehangach drwy Grŵp Cyswllt Sychder Cymru (dan gadeiryddiaeth Llywodraeth Cymru) i gael darlun o'r pryderon sy'n datblygu. Ar hyn o bryd, mae pryderon am gyflenwadau dŵr preifat (yn enwedig yn Sir Benfro) a phryderon yn dod i'r amlwg ar gyfer y diwydiant amaethyddol o ran twf cnydau, pryderon o ran defnyddio porthiant y gaeaf a phryderon am gyflenwadau dŵr.

15. Rhoddodd Tracey drosolwg o rai o'r camau a gymerwyd gan CNC gan gynnwys monitro, cynlluniau rheoleiddio sydd ar waith i helpu i dynnu dŵr, ymgysylltu â rhai sy'n tynnu dŵr, mwy o gyfathrebu rhagweithiol, mwy o ymgysylltu â Llywodraeth Cymru, rheoleiddwyr, cwmnïau dŵr a sectorau eraill, gan sicrhau bod cwmnïau dŵr yn dilyn cynlluniau sychder a hyrwyddo effeithlonrwydd dŵr.

16. Dywedodd Rachel fod NFU Cymru wedi croesawu'r cyfle i fod yn rhan o Grŵp Cyswllt Sychder Cymru a chyfrannu at rai o'r problemau ffermio o ran cyflenwadau dŵr preifat, dŵr a da byw, cyfraddau twf glaswellt is a sut mae hynny i gyd yn effeithio ar y gaeaf sydd o'n blaenau gan fod ffermwyr yn gorfod bwydo eu porthiant nawr. Dywedodd Rachel fod y grŵp wedi gweithio'n dda, ac wrth symud ymlaen, mae'n hollbwysig bod y grŵp yn cael ei roi ar seiliau mwy rhagweithiol yn hytrach nag adweithiol. Mae lle i gael cyfarfod y gwanwyn nesaf er mwyn deall lle rydyn ni arni o ran glawiad y gaeaf ac a yw'r lefelau dŵr wedi'u hailgyflenwi. Yn ôl Tracey mae Llywodraeth Cymru'n dechrau canolbwyntio ar y tymor canolig i'r tymor hir a beth fydd y problemau ehangach, gan nad yr hyn sy'n digwydd nawr yw'r unig ystyriaeth, ond hefyd sut y bydd hyn yn effeithio ar 2023 gan y bydd yn cymryd mwy o amser i ailgyflenwi dŵr daear a ffynonellau eraill.

17. Anogodd Marc yr aelodau i gysylltu gydag unrhyw ymholiadau neu gwestiynau i'w trosglwyddo i'r Tîm Sychder yn CNC.

18. Argymhellodd Tracey y dylai'r aelodau fwrw golwg ar gyngor a chymorth Llywodraeth Cymru i ffermwyr yn ystod cyfnod hir o dywydd sych drwy'r ddolen hon - Welsh Government - Impact of dry weather on farmers.

19. Canmolodd Martyn Evans, CNC bawb am eu gwaith da yn ystod cyfres o amgylchiadau heriol a chymhleth dros ben. Mae hon yn enghraifft dda iawn sy'n dangos elfen gref o waith tîm yn fewnol ac yn allanol. Hefyd, soniodd Martyn am rai o'r trefniadau gweithredu rhwng CNC a'r cwmnïau dŵr.

20. Yn ôl Tracey, mae cydweithwyr coedwigaeth CNC ar Grŵp Cyswllt Sychder Cymru hefyd ac felly'n ystyried sut fydd y tywydd sych yn effeithio ar goed ifanc sydd wedi'u plannu eleni. Ar Ystad Goetir Llywodraeth Cymru, mae coed yn cael eu gadael i ymdopi gan nad oes modd eu dyfrhau. Gallai hyn fod yn effaith bosib pan fydd yr arolygon yn cael eu cynnal, ac mae hynny'n ystyriaeth i'r rhaglen plannu coed (e.e., effaith ar feithrinfeydd). Gwelwyd cryn dipyn o danau gwyllt yn ystod mis Gorffennaf a

dechrau Awst felly bu ymgyrch fawr i wahardd pobl rhag cynnau barbeciws ar diroedd dan reolaeth CNC ac mae CNC yn cydweithio gyda'r Heddlu a'r Gwasanaeth Tân i hyrwyddo hyn.

21. Dywedodd Bernard Griffiths, FUW fod y data'n dangos y bydd mwy a mwy o rannau o Gymru yn mynd i statws sychder yn y blynyddoedd nesaf. Mae hyn yn effeithio nid yn unig ar afonydd a dŵr daear ond busnesau amaethyddol hefyd. Ac eto, rydyn ni'n clywed am symud dŵr o Lyn Clywedog (Cymru) i dde-ddwyrain Lloegr. Gofynnodd Bernard a yw CNC yn gwneud unrhyw beth o ran modelu neu ragweld effaith hynny ar yr amgylchedd a busnesau yn y dyfodol. Cytunodd Tracey fod cyfnod hir o dywydd sych yn 2018 a 2020, ond nad oedden nhw wedi cyrraedd statws sychder gan iddi lawio o fewn mis neu ddau. Dywedodd Tracey fod y dŵr presennol sy'n mynd i Loegr yn gysylltiedig â chytundebau swmpgyflenwi hanesyddol gyda'r cwmnïau dŵr, felly maen nhw mewn bodolaeth ers blynyddoedd. Dyw cyflenwad Clywedog ddim yn cyflenwi cwsmeriaid yng Nghymru ar hyn o bryd, mae'n mynd i Loegr fel rhan o'r cytundeb swmpgyflenwi. Er mwyn rhoi sicrwydd i chi, dywedodd Tracey y gallech fod wedi clywed am gynllunio rhanbarthol, sy'n ofynnol yn Lloegr ac yn edrych ar opsiynau adnoddau strategol drwy broses RAPID Ofwat - a bod trosglwyddo dŵr Hafren-Thames yn un o'r rheiny (’Ofwat - Regulators Alliance for Progressing Infrastructure Development (RAPID) <https://www.ofwat.gov.uk/regulated-companies/rapid/>). Mae CNC a Llywodraeth Cymru yn cyfrannu’n llawn at y grwpiau hynny, ac mae'r rhan honno o Gymru yn rhan o'r Water Resources West Regional Plan. Mae egwyddorion arweiniol Llywodraeth Cymru ar gyfer y cynlluniau hynny wedi pwysleisio bod rhaid i unrhyw swmpgyflenwad newydd neu addasiad i'r cyflenwadau presennol gael eu gwneud gyda thrafodaeth lawn â CNC (gan ei fod yn gyfrifoldeb datganoledig i Lywodraeth Cymru). Byddai'n rhaid cynnal asesiad llawn o'r effeithiau ar bobl, yr amgylchedd a'r gost o ran carbon, ymhlith pethau eraill.

## Eitem 4 Cyflwyniad: Effeithlonrwydd Dŵr

22. Ymunodd Brendan Hardiman, CNC â'r cyfarfod i roi cyflwyniad ar effeithlonrwydd dŵr. Mae Brendan yn Ymgynghorydd Effeithlonrwydd Dŵr yn CNC.

23. Dechreuodd Brendan drwy roi trosolwg o'r uchelgais genedlaethol i fynd i'r afael â newid hinsawdd.

24. Mae'r dull cyfannol o Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (SMNR) yn cael ei gefnogi gan ddeddfwriaeth gyfredol Cymru ac ysgogwyr polisi eisoes gan gynnwys:

- Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol 2015
- Strategaeth Ddŵr i Gymru 2015 (Llywodraeth Cymru)
- Deddf yr Amgylchedd 2016
- Polisi Cyfoeth Naturiol 2016
- Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) Cymru 2016 a 2020
- Datganiadau Ardal/Dalgylchoedd Cyfle

25. Mae gan Gymru hinsawdd arforol a newidiadau eithafol mewn topograffi o fewn ardal gymharol fach. Mae glawiad cyfartalog Cymru’n gallu bod dros 3000 milimetr ar dir uchel, ond llai na 1000 milimetr mewn mannau eraill. Prin iawn yw'r dyfrhaenau a

chyfleusterau storio dŵr wyneb naturiol yng Nghymru. Mae'r cronfeydd dŵr mwy yn darparu cyflenwadau hanfodol i gytrefi dros y ffin. Mae'r dŵr sydd ar gael i'w dynnu ar lifoedd is yn broblem, yn enwedig yn hanner dwyreiniol Cymru. Mae pwysau'r dyfodol a gydnabuwyd yn Asesiad Risg Newid Hinsawdd y DU yn 2017, yn dangos y bydd Cymru'n wynebu cyfnodau hirach o dywydd sych a mwy o law trwm. Rhagwelir hefyd y bydd y boblogaeth yn codi 400,000 arall o 3.1 miliwn erbyn 2050. Byddai'r naill newid a'r llall yn rhoi mwy o straen ar gadernid amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd yng Nghymru, yn enwedig yn ystod cyfnodau hir o ychydig o law neu ddim glaw o gwbl. Mae Grŵp Effeithlonrwydd Dŵr Cymru yn ymdrechu i newid y canfyddiad nad yw effeithlonrwydd dŵr yn flaenoriaeth yng Nghymru.

26. Mae cyfle drwy Grŵp Effeithlonrwydd Dŵr Cymru ar gyfer dull amlsefydliadol o helpu i newid canfyddiad o'r angen am effeithlonrwydd dŵr yng Nghymru. Y nod yw cyflawni targedau amlder dŵr Cymru er mwyn creu Cymru fwy ffyniannus trwy wella cadernid amgylcheddol a chymdeithasol, a thrwy wneud effeithlonrwydd dŵr yn rhan o economi gylchol Cymru. Gan weithio gyda'i gilydd, byddant yn ceisio lleihau defnydd y pen (PCC) gymaint â 6.3% erbyn 2025 a chodi'r ymwybyddiaeth o'r angen am effeithlonrwydd dŵr ym mhob sector o gymdeithas. Byddan nhw'n ymroi i gau'r bylchau tystiolaeth hefyd.

27. Bydd CNC yn gweithio fel rhan o Is-grŵp Effeithlonrwydd Dŵr Cymru i ddarparu ymchwil a dulliau arloesol o reoli adnoddau a defnyddio ymgyrchoedd i annog cwsmeriaid i ddefnyddio'r mesurau hyn.

28. Bwriad CNC yw arwain trwy esiampl, ac mae wedi cynnal achrediad effeithlonrwydd dŵr gyda Water Wise trwy ennill eu statws effeithlonrwydd dŵr i bob canolfan ymwelwyr a'r tair prif swyddfa yma yng Nghymru. Blaenoriaeth arall CNC yw darparu'r sail dystiolaeth ar gyfer Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR) 2020, gydag effeithlonrwydd dŵr fel thema drawsbynciol ar gyfer yr holl gynefinoedd eang fel mesur cadernid newid hinsawdd.

29. Rhoddodd Brendan grynodeb o fanteision effeithlonrwydd dŵr, gan gynnwys:

- Gallu gwrthsefyll sychder yn well
- Defnyddio llai o ddŵr
- Llai o golledion wrth ddyfrhau
- Llai o gostau gwaredu dŵr budr

30. Cyngor i ffermwyr –

- Waterwise - Waterwise on the farm
- Agriculture and Horticulture Development Board (AHDB) - AHDB: Full Water Audit Pack

31. Gofynnodd Zoe pa mor dda mae'r gwaith Effeithlonrwydd Dŵr yn cyd-fynd â rhai o weithgareddau sefydliadau'r Fforwm Rheoli Tir. Dywedodd Brendan fod cydweithwyr CNC wedi bod yn gwneud llawer o waith gyda rhai o aelodau'r Fforwm Rheoli Tir ar ddefnydd annomestig ynghyd â thimau ffermio a thimau gweithredol CNC sy'n cydweithio'n agos â'r diwydiant ffermio. Dywedodd Brendan bod y tîm yn chwilio am gyfleoedd pellach bob amser i godi ymwybyddiaeth o negeseuon a chyfleoedd

effeithlonrwydd dŵr. Anogodd Brendan aelodau'r Fforwm Rheoli Tir i gysylltu i drafod Effeithlonrwydd Dŵr ymhellach.

32. Dywedodd Dennis fod da byw'n gwneud yn llawer gwell mewn blwyddyn sych a phoeth ar y cyfan nag y maen nhw mewn blwyddyn wlyb ac oer. Mae llawer o bobl yn cario dŵr i'w gwartheg a'u defaid gan nad oes ganddynt ddim ar ôl. Mae rhai pobl yn dibynnu ar ffynhonnau a nentydd bas ond mae'r rhain wedi sychu hefyd. Dywedodd Dennis ei fod yn tyfu meillion coch fel silwair, a bod ganddo rai caeau a dorrwyd 2-3 wythnos yn ôl, a bod y borfa'n 6 modfedd o daldra ac yn wyrdd tywyll. Mae'r cae drws nesaf yn dir pori parhaol, a does dim byd arno ers ei dorri deufis yn ôl. Awgrymodd Dennis efallai y bydd rhaid i ffermwyr ddewis cnydau gwahanol wrth i'r hinsawdd fynd yn sychach.

    O ran pryderon am drosglwyddo dŵr o Gymru i Loegr, dywedodd Dennis ei fod yntau'n poeni'n fawr am hyn. Dywedodd fod gan y DU yn ei chyfanrwydd ddigon o ddŵr fwy na thebyg, ond ei fod yn y lle anghywir. Bu Dennis yn trafod yr anawsterau o ran logisteg ac isadeiledd wrth drosglwyddo dŵr ledled y DU.

33. Dywedodd Anthony fod y gwanwyn a'r haf wedi bod yn dipyn o straen o ran gwaith plannu newydd, a bod rhai cynlluniau wedi gwneud yn dda ond eraill wedi dioddef. Mater o blannu ar yr adeg gywir yw hi. Gobeithio y bydd y broses gynllunio'n newid, o gofio bod mwy o gyfleoedd i wneud cais am Grant Cynllunio Coetiroedd a grantiau plannu eraill erbyn hyn (cynlluniau treigl gydol y flwyddyn yn lle cyfnod ymgeisio cyfyng, felly gallwch wneud cais amdanynt unrhyw bryd bellach). Fe wnaeth Anthony annog unrhyw un sy'n plannu i ystyried y mathau o goed maen nhw'n eu plannu (e.e., stoc gwraidd moel, y math ffisegol, rhywogaeth y coed, ond hefyd y math o goed, sut maen nhw'n cael eu tyfu ac ati.).

    Gofynnodd Anthony pa waith ymgysylltu sy'n digwydd gyda'r rhaglenni effeithlonrwydd a monitro dŵr sy'n croesi drosodd i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy (SFS) ac i gynlluniau coedwigaeth cynaliadwy. Os ydym yn creu coetir newydd ar hyn o bryd, esboniodd Anthony nad yw unrhyw dir agored, pyllau dŵr neu unrhyw beth sydd o fudd ychwanegol wedi'i gofrestru na'i gydnabod. Felly, does dim cymhelliad i greu nodweddion ychwanegol. Dywedodd Tracey ei bod yn siarad â chydweithwyr coedwigaeth CNC a'i bod wedi gofyn i'r grŵp dynnu sylw at unrhyw beth yr hoffai ei godi gyda Grŵp Cyswllt Sychder Cymru. Byddai unrhyw wybodaeth ychwanegol gan yr aelodau o fudd i Tracey fynd gyda hi i'r cyfarfod, er mwyn uwchgyfeirio problemau. Gofynnodd Anthony am fanylion ymgysylltu'r fforwm oherwydd bod y sector preifat yn gyfrifol am ailstocio a hyrwyddo llawer mwy o goetir na CNC.

***PG Medi 01: Bronwen Martin, CNC i rannu'r manylion cyswllt ar gyfer Tracey Dunford, CNC.***

***PG Medi 02: Anthony Geddes, Confor i gysylltu â Tracey Dunford, CNC a darparu rhagor o wybodaeth a thystiolaeth am faterion coedwigaeth i'w crybwyll wrth Grŵp Cyswllt Sychder Cymru.***

34. Adleisiodd John Browne, CNC sylwadau Anthony. Mae'r math o goed a phryd y cânt eu plannu yn dyngedfennol bwysig. Fodd bynnag, un o'r ffactorau mawr yw'r cyfnodau ymgeisio tynn ar gyfer grantiau ac weithiau mae hynny'n gwthio'r gwaith plannu coed i'r amser anghywir yn ystod y flwyddyn. Bu John yn trafod rhai o'r problemau plannu eraill a welodd ar draws Ystad Goetir Llywodraeth Cymru.

## Eitem 5 Cynllun Corfforaethol CNC

35. Ymunodd Sue Ginley, CNC â'r cyfarfod i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am Gynllun Corfforaethol CNC.

36. Mae CNC wrthi'n gweithio ar y cynllun corfforaethol ar hyn o bryd a disgwylir ei gyhoeddi ym mis Mawrth 2023. Ym mis Chwefror 2022, cynhaliodd CNC arolwg ar-lein am yr hyn y dylid ei gynnwys yn y cynllun corfforaethol. Defnyddiwyd adborth o'r arolwg i helpu i lunio'r Cynllun Corfforaethol sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

37. Mae prif elfen cynllun corfforaethol CNC yn seiliedig ar ofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Dywedodd Sue fod angen i CNC ddatblygu amcanion llesiant sef yr amcanion ar gyfer y corff ei hun, a datblygu'r camau sydd angen eu cymryd i fodloni'r amcanion hynny. Ar hyn o bryd, mae'r ddau beth yn ganolog i'r cynllun corfforaethol (e.e., yr hyn rydyn ni am ei gyflawni, a'r hyn rydyn ni'n mynd i'w wneud i gyflawni hynny).

38. Roedd yr arolwg a gynhaliwyd yn gynharach yn y flwyddyn yn gofyn am amcanion llesiant CNC ar hyn o bryd; ai dyma'r rhai cywir, oes angen i ni newid pethau a pha mor hir ddylai ein hamcanion llesiant bara. Mae'r amcanion llesiant presennol yn rhai hirdymor iawn felly dylem fod yn canolbwyntio ar rywbeth byrrach o ran amser, a beth ddylai'r cynnwys fod.

39. O'r arolwg cyntaf, dywedodd Sue fod gan CNC adborth ar y materion canlynol:

    - Pa mor hir y dylai ein hamcanion llesiant barhau?
    - Ar beth ddylen ni seilio'r amcanion?
    - Roedd yr amcanion llesiant a oedd gennym gynt yn berthnasol, ond roedden nhw'n perthyn i'w cyfnod – mae'n rhaid i ni feddwl mwy yn awr am seilio pethau o gwmpas newid hinsawdd a'r argyfwng natur.

40. Ar hyn o bryd mae Tîm Arwain CNC yn gweithio gyda'u timau ar y camau sydd angen eu cymryd yn CNC i gyflawni'r amcanion llesiant hynny erbyn 2027, yn ogystal â meddwl yn fwy hirdymor i 2030 a thu hwnt. Mae disgwyl iddyn nhw gyflwyno eu syniadau cychwynnol i'r Tîm Cynllunio Corfforaethol ynghylch y camau hynny ganol mis Medi. Yna bydd Tîm Gweithredol CNC yn pori drwyddynt cyn ysgrifennu drafft cyntaf y Cynllun Corfforaethol.

41. Dywedodd Sue fod amserlen eithaf tynn ar gyfer y gwaith hwn. Mae Tîm Gweithredol CNC yn edrych ar y Cynllun Corfforaethol ddechrau mis Hydref, yna byddwn yn gofyn am farn pawb ar y cynllun drafft hwnnw. Hoffai CNC ofyn i aelodau'r Fforwm Rheoli Tir gymryd rhan yn yr ail rownd o'r gwaith ymgysylltu ac ymgynghori hwn, sy'n debygol o ddigwydd rhwng canol mis Hydref a chanol mis Tachwedd. Yna bydd y Tîm Gweithredol yn trin a thrafod y Cynllun Corfforaethol eto i'w gwblhau, a fydd yn caniatáu amser i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn barod i'w lansio erbyn diwedd mis Mawrth 2023.

42. Dywedodd Sue eu bod yn ystyried sut i gynnal y broses ymgysylltu hon rhwng canol Hydref a chanol Tachwedd. Mae'n debyg mai copi syml o'r hyn mae CNC wedi'i wneud hyd yma fydd hyn, ar ffurf drafft bras gyda'r amcanion a'r camau ynghyd â phump neu

chwe chwestiwn i'w hateb. Bydd y cwestiynau'n ymwneud â'u golwg a'u teimlad, a ydyn nhw'n gwneud synnwyr, ydyn nhw'n ddigon uchelgeisiol ac a yw ein dulliau wedi'u hintegreiddio rhwng ein swyddogaethau gwahanol a'r ffyrdd gwahanol o weithio. Unwaith y byddwn wedi cael y safbwyntiau hynny gennych, byddant yn bwydo i'r broses derfynol ar ddiwedd mis Tachwedd.

43. Dywedodd Sue y bydd yn rhannu gwybodaeth ag aelodau'r Fforwm Rheoli Tir ac yn gofyn iddyn nhw ystyried y ddogfen a rhannu adborth. Mae CNC yn chwilio am adborth a sylwadau penodol er mwyn derbyn cydbwysedd da o farn gan sefydliadau partner.

***PG Medi 03: Bronwen Martin, CNC i rannu manylion cyswllt Sue Ginley, CNC.***

44. Dywedodd Rachel fod NFU Cymru yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfrannu at Gynllun Corfforaethol CNC, a'u bod wedi cael gwahoddiad i gyflwyno sylwadau ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig, a fydd yn cael ei gyhoeddi ar 31 Hydref. Gofynnodd Rachel i ni ystyried yr ymrwymiadau a’r terfynau amser sylweddol eraill hyn wrth wahodd sefydliadau i gyflwyno adborth a sylwadau.

45. Awgrymodd Dennis fod diogelwch bwyd yn bwysig iawn a'i fod i'w weld ar goll o'r Cynllun Corfforaethol. Awgrymodd Dennis y dylai bwyd fod ar frig yr agenda.

46. Dywedodd Anthony fod mis Medi a mis Hydref yn llawn dop o ymrwymiadau eisoes. Gofynnir i Confor ymateb i ymgynghoriadau sydd â chyfnod ateb byr iawn yn aml, ac nad yw pythefnos yn ddigon o amser i gyfrannu'n llawn. Mae Cynllun Corfforaethol CNC yn ffactor pwysig a fydd yn dylanwadu ar lawer o bethau pwysig, ac mae angen digon o amser i roi ymatebion.

## Eitem 6 Diweddariadau CNC

47. Cyn y cyfarfod, anfonwyd Papur Diweddaru at yr aelodau yn cynnwys gwybodaeth gryno.

48. Fe wnaeth Martyn Evans CNC gyflwyno Nick Thomas, CNC i roi cyflwyniad byr ar Rwydweithiau Natur, sy'n rhan o waith CNC i sicrhau bod Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) mewn cyflwr gwell. Mae gan y gwaith hwn ffocws allweddol ar Gytundebau Rheoli Tir hefyd.

49. Mae Nick Thomas, CNC yn goruchwylio pum prosiect LIFE CNC a ariennir gan yr Undeb Ewropeaidd. Rydym yn parhau i gael arian gan yr UE i wella cyflwr safleoedd. Mae Nick yn goruchwylio'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur hefyd, sy'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru.

50. Dangosodd Nick fap yn dangos lleoliadau'r SoDdGA, Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA) ac Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) ledled Cymru. Gyda’i gilydd, mae 1,070 SoDdGA yn cwmpasu dros 12% o Gymru. Mae tua 30% o'r nodweddion mewn cyflwr 'anffafriol' a thua 20% o'r nodweddion mewn cyflwr 'ffafriol'. Fodd bynnag, dydyn ni ddim yn gwybod beth yw hanes na chyflwr tua 50% o safleoedd. Gall 'nodwedd' olygu'r cynefin ei hun yn ogystal â rhai rhywogaethau sy'n gysylltiedig â'r SoDdGA, er enghraifft mae gloÿnnod byw britheg y gors yn nodwedd hefyd.

51. Lansiodd Llywodraeth Cymru Raglen Grant Rhwydweithiau Natur ym mis Awst, sy'n cael ei gweinyddu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri. Rhaglen grant gwerth tua £10 miliwn o gyllid hyd at 2026 yw hon, lle gall partneriaid wneud cais am arian er mwyn gwella cyflwr SoDdGA yn bennaf. Fel rhan o hynny, cafodd CNC arian ychwanegol y llynedd (£2.75m yn 2021/2022) ac eleni (£4.5m ar gyfer 2022/2023), i geisio gwella cyflwr y SoDdGA hyn.

52. Mae llawer o hyn yn cael ei gyflawni drwy Gytundebau Rheoli. Cytundebau gwirfoddol pum mlynedd gyda thirfeddianwyr i wella cyflwr SoDdGA yw'r rhain, sy’n golygu taliad blynyddol fel arfer (e.e., ar gyfer pori glaswelltir gyda gwartheg yn hytrach na defaid, yn ogystal â thaliadau gwaith cyfalaf tuag at waith fel ffensio, torri rhedyn neu rug ac ati.).

53. Mae'r cynnydd hwnnw mewn cyllid wedi cael effaith sylweddol gan fod nifer y cytundebau rheoli wedi bod yn gostwng dros y degawd diwethaf, oherwydd toriadau staff, ond hefyd y ffaith bod llawer o gytundebau wedi dod i ben a'r tir wedi ymuno â chynllun Glastir. O ganlyniad i'r cynnydd mewn cyllid, gwelwyd cynnydd sylweddol yn nifer y cytundebau rheoli y llynedd (115 y llynedd).

54. Disgrifiodd Nick beth o'r gwaith a wnaed i wella statws SoDdGA gan gynnwys adfer pyllau, clirio ffosydd ar gyfer planhigion dyfrol a chlirio prysgwydd i adfer glaswelltiroedd. Mae timau'n gweithio'n agos iawn gyda pherchnogion tir, rheolwyr tir, meddianwyr a thenantiaid. Mae llawer ohono'n golygu sicrhau bod safleoedd yn cael eu pori'n gywir, yn enwedig gyda gwartheg. Mae hyn yn allweddol i wella llawer o'r ardaloedd pwysig hyn o laswelltiroedd. Soniodd Nick am y gwaith a wnaed i geisio adfer cynefinoedd y Gylfinir.

55. Ynghyd â'r pwyslais parhaus ar Gytundebau Rheoli, soniodd Nick am rai o brosiectau eraill Rhwydweithiau Natur CNC ar gyfer 2022/2023. Anogodd Martyn yr aelodau i gysylltu ag ef neu Nick am ragor o wybodaeth. Diolchodd Martyn i'r tirddeiliaid, perchnogion tir a ffermwyr sydd wedi ymrwymo i Gytundebau Rheoli Tir gan fod prosiectau'n ddibynnol ar y partneriaethau hynny.

56. Croesawodd Martyn gwestiynau am y diweddariadau ysgrifenedig gan y grŵp.

57. Dywedodd Rachel fod NFU Cymru wedi bod yn rhan o'r cyfarfodydd bwrdd crwn gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd. Mae yna darged '30 erbyn 30', ac mae angen canolbwyntio ar y safleoedd presennol a'u codi i gyflwr da yn gyntaf. Ni fyddwn yn cyflawni hyn trwy reoleiddio; ond yn hytrach trwy'r union ddull a amlinellodd Nick drwy Gytundebau Rheoli Tir gyda ffermwyr. Ar lefel aelod, dywedodd Rachel ei bod hi'n anodd i rai sydd â'r safleoedd hyn wybod pwy yw eu cyswllt lleol, a gofynnodd a allai CNC wneud rhywbeth i helpu ffermwyr i wybod pwy yw'r swyddogion priodol i gysylltu â nhw.

    Trafododd Rachel y Cynllun Ffermio Cynaliadwy arfaethedig a'r cynnig ar gyfer cam gweithredu cyffredinol sy'n golygu y bydd angen i bob ffermwr sydd â safle dynodedig ar ei fferm gael Cynllun Rheoli (nid cytundeb sy'n darparu arian o reidrwydd) ar waith. Dywedodd Rachel fod dros 1000 SoDdGA a thua 400 o gytundebau ar waith ar hyn o bryd. Pa mor ymarferol yw hi o safbwynt CNC i gael pobl allan ar safleoedd yn gweithio gyda ffermwyr i gael y cynlluniau rheoli hyn yn eu lle, oherwydd os nad ydyn nhw ar waith, byddai'n rhwystro'r cyfle iddyn nhw ymuno â chynlluniau'r dyfodol. Dywedodd Martyn fod gan CNC rywfaint o gapasiti ychwanegol oherwydd ein bod yn cael cymryd

rhywfaint o orbenion o’r rhaglen gan Lywodraeth Cymru i sicrhau rhywfaint o gapasiti tymor byr ar gyfer y 2-3 blynedd nesaf i staff, sy'n caniatáu hynny ar gyfer naill ai staff newydd neu'r staff presennol yn ein timau lleol. Dywedodd Martyn y gellir dosbarthu rhestr ar ôl y cyfarfod o gysylltiadau CNC ar gyfer y timau amgylchedd.

***PG Medi 04: Bronwen Martin, CNC i ddosbarthu'r rhestr gyswllt ar gyfer Timau Amgylchedd CNC.***

58. Soniodd Bernard Griffiths, FUW fod Nick wedi crybwyll nitrogen atmosfferig fel problem bosibl i ffermydd dwys yn agos at y safleoedd hyn, a gweithio gyda ffermwyr i leihau hynny. Gofynnodd Bernard beth mae CNC yn gobeithio ei wneud â'r rheoliadau ansawdd dŵr newydd, a fyddan nhw'n cael eu gorfodi i greu cynlluniau rheoli maetholion. Dywedodd Nick fod gan CNC ddau swyddog a fydd yn canolbwyntio ar safleoedd penodol lle y gwyddom fod lefelau uchel o nitrogen atmosfferig yn effeithio arnyn nhw. Gallwch wneud pethau eraill o amgylch unedau dofednod, plannu sgriniau o goed o'u cwmpas o bosib er mwyn lleihau faint o nitrogen sy'n dod o’r safleoedd hynny ac i'r SoDdGA. Mae pob math o bethau y gallwn eu gwneud, trefnu bod staff yn siarad â thirfeddianwyr am hyn - a byddai cael rhywfaint o arian i ariannu gwaith cyfalaf yn ddefnyddiol dros ben.

59. Roedd Dennis yn falch o glywed y gydnabyddiaeth bod gwartheg yn hanfodol er mwyn ceisio dychwelyd cynefinoedd i gyflwr da, gan fod cymaint wedi'i golli dros yr hanner can mlynedd diwethaf. Bu Dennis yn trafod rhai o'r safleoedd y buodd yn ymweld â nhw gyda sefydliad PONT. Holodd Dennis am gyllid. Dywedodd Nick fod cyllid Rhaglen Rhwydweithiau Natur (gwaith gyda chytundebau rheoli) yn dod gan Lywodraeth Cymru. Mae cyllid pum prosiect LIFE yn parhau i ddod o'r UE (mae rhai prosiectau'n para tan 2026).

60. Soniodd Anthony am bapur RSPB diweddar a oedd fel petai'n diystyru'r ffaith fod 30% o dir dynodedig yn cael ei reoli'n weithredol ac mewn cyflwr da. Crybwyllodd Anthony nad oes data ar gyfer tua 50% o'r dynodiadau a gofynnodd beth sy'n cael ei wneud i gasglu data ar y rheiny a chwestiynu a yw'n feichus i reolwr y tir. Beth sydd ar waith ar hyn o bryd fel bod rheolwyr tir yn gallu elwa ar y camau maen nhw eisoes yn eu cymryd. Dywedodd Nick fod y 1000 SoDdGA bron yn rhyw 230,000 hectar o dir ac oherwydd nifer cyfyngedig y staff dros y blynyddoedd diwethaf, nid yw CNC wedi cael cyfle i fynd allan i weld llawer o'r safleoedd hyn. O ganlyniad, dim ond syniad rhesymol sydd gennym am gyflwr 50% o'r rheiny. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur, mae CNC yn gallu mynd i weld mwy o safleoedd ac rydyn ni'n casglu mwy o wybodaeth yn raddol. O ran rheolwyr tir, go brin ei fod yn feichus iddyn nhw. Mae'r safleoedd hyn yn SoDdGA ac nid ydynt yn mynd i gael effaith sylweddol arnyn nhw mewn gwirionedd, ar wahân i'r ffaith y gallai agor y ffordd i gynlluniau rheoli a chytundebau rheoli neu fynediad i'r SFS gobeithio.

    O ran y bylchau, dywedodd Nick y byddai coetiroedd yn gymwys ar gyfer cytundebau rheoli, ond bod rhaid i ni flaenoriaethu'r cynefinoedd mwy sensitif fel glaswelltiroedd, mawndiroedd a llefydd eraill sy'n gallu cael eu difrodi naill ai'n fwriadol neu drwy ddiffyg pori er enghraifft.

    Dywedodd Anthony os yw adnoddau CNC wedi cynyddu a’u bod yn ceisio mynd allan i SoDdGA ac ardaloedd cadwraeth eraill, oes gennych chi ganllawiau, data, neu wybodaeth gymorth y gallwch ei rhannu? Dywedodd Nick fod llawer mwy y gallai CNC

ei wneud ond bod cryn dipyn o hynny'n dibynnu ar adnoddau. Awgrymodd Nick y gallai cylchlythyr gael ei gynhyrchu ar gyfer holl berchnogion SoDdGA a fyddai'n gam bach i'r cyfeiriad cywir.

## Eitem 7 Diweddariad gan FUW / NFU Cymru / CFfI Cymru / Confor / CLA / TFA / Llywodraeth Cymru

61. **FUW:** Dywedodd Bernard Griffiths, FUW bod ei gydweithwyr yn yr Adran Bolisi wedi bod yn brysur iawn a chrybwyllodd ymateb cychwynnol FUW i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae cynigion diweddaraf Cynllun Ffermio Cynaliadwy Llywodraeth Cymru ar y trywydd iawn, ac maen nhw'n cyd-fynd yn fras gyda'r sylwadau a wnaeth FUW mewn ymgynghoriadau, ond mae llawer o bryderon yn ymwneud â rhai o fanylion y cynllun. Mae FUW yn credu ei bod hi'n hanfodol bod yna daliad sylfaenol i sicrhau bod y cynllun yn ddeniadol, a fydd yn caniatáu i ffermwyr barhau i gynhyrchu bwyd. Mae'r FUW yn credu y dylid capio a thapro taliadau a bod rhaid i hyn fod yn nodwedd yn y cynllun. Mae cydnabyddiaeth briodol i rôl hanfodol ffermwyr gweithgar fel cynhyrchwyr bwyd ond nid yw'n ddigon uchel ar yr agenda, dylai fod ar yr un lefel â materion amgylcheddol. Fodd bynnag, bydd y cynnig y dylai 10% o'r holl ffermydd gynnwys gorchudd coed yn destun pryder mawr i'r ffermwyr hynny lle byddai'n golygu colli cyfran fawr o'u tir cynhyrchiol.

    Mae Adran Bolisi FUW wedi cynhyrchu cynllun pum pwynt hefyd i liniaru effeithiau pandemig COVID a'r rhyfel yn Wcráin, gan y gwyddom fod hyn wedi arwain at gynnydd aruthrol mewn costau ynni a thanwydd i rai busnesau. Mae chwyddiant ffermydd yn agosáu at 30% ac mae darogan y bydd bwyd yn codi 15%. Crynhodd Bernard y pum pwynt:

    1. Masnach – mae'n bryd ailosod polisi masnach ryngwladol. Mae Llywodraeth y DU wedi bod yn mynd ar drywydd cytundebau masnach rhyddfrydol gyda gwledydd pell y mae hyd yn oed ei ffigyrau ei hun yn dangos y byddant yn tanseilio diogelwch bwyd yn y DU.
    2. Cysylltiadau – dylid adfer cysylltiadau da gyda'n cymdogion agosaf, y mwyafrif ohonynt yn aelodau o'r UE ac aelodau o'r bartneriaeth fasnach fwyaf sefydlog yn y byd. Rhaid i Lywodraeth y DU geisio adfer ei pherthynas â'r UE a gwledydd cyfagos er mwyn diogelu allforion a diogelwch bwyd y DU a pheidio â mynd i ryfel cyfreithiol a masnach dros Brotocol Gogledd Iwerddon.
    3. Ynni adnewyddadwy – mae'n hen bryd cael chwyldro ynni adnewyddadwy. Rhaid i Lywodraethau'r DU a Chymru gyflymu ymdrechion sy'n adfer twf yn y diwydiant trwy gynnig cymhellion ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar ffermydd heb beryglu cynhyrchu bwyd a thir amaethyddol.
    4. Polisi – mae angen i ni ailystyried polisïau domestig, amaethyddol a gwledig. Erbyn diwedd 2023, bydd Cymru wedi derbyn tua £250 miliwn yn llai o arian amaethyddol o gymharu â phe byddem wedi aros yn yr UE
    5. Cyllid – cymorth ariannol ar gyfer diwydiannau hollbwysig. Rhaid i Lywodraethau'r DU weithredu i roi ffermwyr y DU mewn sefyllfa gyfartal gyda ffermwyr yn yr UE oedd yn derbyn cyllid i wneud yn iawn am gostau uchel cynhyrchu bwyd.

62. **NFU Cymru:** Dywedodd Rachel Lewis-Davies nad ydym wedi gweld y Cynllun Ffermio Cynaliadwy yn ei fanylder eto, er enghraifft, beth sy'n mynd i gael ei ystyried yn gynefin yn y gofyniad cynefin 10%, beth sy'n mynd i gael ei ystyried yn orchudd coed yn y 10% hwnnw a pha mor ymarferol fydd cyflawni hynny. Mae'n hanfodol ein bod yn cael polisi'r dyfodol yn gywir ac nad ydym yn dechrau pontio nes ein bod yn gwbl sicr y gall ddarparu o leiaf yr un lefel o sefydlogrwydd i'n busnesau fferm a'n cymunedau gwledig.

    Yn ddiweddar, cyflwynodd NFU Cymru dystiolaeth ysgrifenedig i Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd ar gyfer Cymru ar y sefyllfa ddeddfwriaethol o ran gwrychoedd. Mae NFU Cymru wedi rhoi tystiolaeth i ymchwiliad Senedd Cymru i Fil Diogelu’r Amgylchedd (Cynhyrchion Plastig Untro) (Cymru). Mae NFU Cymru wedi darparu ymateb i Raglen Rheoli Llygredd Aer Genedlaethol y DU hefyd.

    Gofynnodd Hedd Pugh, NFU Cymru am fwy o wybodaeth am glefyd y llarwydd ac a yw'n lledu yng Nghymru. Dywedodd John Browne, CNC ei fod wedi lledaenu erioed ac nad oes modd ei reoli byth gan ei fod yn cael ei gludo gan y gwynt, er nad yw wedi lledaenu mor gyflym ag yr ofnwyd yn wreiddiol. Er hynny, rydyn ni'n parhau i weld ardaloedd newydd o'r haint bob blwyddyn, felly mae'r mesurau rheoli’n bwysig o hyd. Mae clefyd Phytophthora newydd erbyn hyn, sy'n debyg iawn ond yn ymosod ar rywogaethau gwahanol o goed. Nid ydym yn rhoi rhybudd tan fod cadarnhad o'r afiechyd fel arfer, ac os yw'n digwydd ddechrau'r gwanwyn yna yn anffodus rydych chi'n gwybod bod yr amser pan mae'n rhaid cwympo'r coed yn dynn iawn. Os yw'n ddiweddarach yn yr haf, mae ail ddyddiad gofynnol ac felly ychydig mwy o amser. Yn y gorffennol mae John wedi darparu ymateb swyddogol a ddosbarthwyd i'r aelodau; bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu eto wedi'r cyfarfod.

***PG Medi 05: Bronwen Martin, CNC i ailddosbarthu'r ddogfen Rhybudd Iechyd Planhigion statudol am goed llarwydd.***

    Gofynnodd Hedd am y newyddion diweddaraf am afancod yn Nyffryn Dyfi hefyd.

63. **CFfI Cymru:** Dywedodd Lee Pritchard ei fod yn newydd yn y swydd. Bu'n gyfarfod addysgol iawn iddo. Mae CFfI Cymru yn cyfarfod i drafod a llunio ymateb i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

64. **Confor:** Dywedodd Anthony Geddes fod Confor yn dal i drin a thrafod manylion y Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Mae Confor yn croesawu'r gorchudd coetir o 10% ar y fferm ond mae graddfa amser gweithredu neu gyflawni'r 10% hwnnw’n peri pryder yn arbennig o safbwynt adnoddau, cyflenwad y sector a sicrhau bod y sector meithrinfeydd/planhigfeydd yng Nghymru yn gallu darparu'r prosiectau gwrychoedd, gorchudd coed a phrosiectau coedwigo eraill. Mae angen i bobl feddwl sut y bydd defnydd integredig o dir yn effeithio ar y gadwyn gyflenwi.

    Mae rhai camau eithaf sylweddol ymlaen o ran y Ddeddf Goedwigaeth gan gynnwys diwygio'r drwydded dorri. Fodd bynnag, mae'r timau torri a thrwyddedu’n gwthio rhai newidiadau sylweddol drwodd hefyd, a fydd yn effeithio ar bob perchennog tir sy'n ceisio gwneud cais am drwyddedau torri coed.

    Soniodd Anthony fod adolygiad o systemau draenio cynaliadwy (SuDS) yng nghamau cynnar ymgynghoriad allanol ar hyn o bryd. Mae Confor wedi bod yn adolygu'r fframwaith SuDS presennol. Mae'r ddeddfwriaeth wedi'i darparu'n wael iawn yng

Nghymru, yn enwedig ar gyfer datblygiadau nad ydynt yn drefol (e.e., lonydd fferm a ffyrdd coedwigoedd) lle nad ydynt wedi'u cysylltu â systemau draenio'r seilwaith presennol. Mae Confor yn pwyso am gynnydd sylweddol iawn yn yr ardal y gellir ei newid. 100 metr sgwâr yw'r gofyniad yng Nghymru ar hyn o bryd, nad yw hyn yn oed yn cynnwys man llwytho ar gyfer pentyrru pren yn y rhan fwyaf o achosion. Tua 25,000 metr sgwâr yw'r ffigur yn yr Alban, sy'n golygu y gallwch adeiladu ffordd goedwig yn yr Alban. Fe wnaeth Anthony annog yr undebau amaeth i gymryd rhan a chynigiodd rannu'r manylion cyswllt.

Mae'r Grant Cynllunio Coetir ar waith ers tro, a'r Cynllun Grant Plannu Coetir yn fyw ers 1 Medi. Soniodd Anthony fod rhywfaint o ddryswch bod y cyllid ar gyfer coedwigaeth wedi'i nodi fel £54 miliwn yn y gyllideb flaenorol, ond dim ond £34 miliwn ydyw bellach. Mae'r gostyngiad mewn cyllid a ddyrannwyd yn destun pryder ond byddai'n annog pobl i ddechrau gyda'r system gynllunio yn gynnar gan y bydd yn dal i gymryd 12 mis i fynd drwodd fwy na thebyg cyn y gellir darparu unrhyw grant cynllunio.

O ran y cynlluniau grant newydd, soniodd Tim Kirk, Confor fod Llywodraeth Cymru, yn gynharach heddiw, wedi anfon manylion at bawb am y cynllun newydd a agorodd ar 30 Awst ac sy'n cau ar 14 Hydref. Mae hynny'n golygu dim ond 38 diwrnod gwaith (rydym wedi colli pump eisoes) gydag o leiaf 40 o gynlluniau. Cwestiynodd Tim a all CNC ddygymod â'r gwaith hwn yn yr amser sydd i'w gael mewn gwirionedd.

65. **TFA:** Soniodd Dennis Matheson fod TFA wedi bod yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru i geisio cael mynediad i'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy ar gyfer tenantiaid. Fel y mae, ni fydd y rhan fwyaf o denantiaid yn gallu manteisio arno oherwydd y gofyniad plannu coed a'r rheoliadau llygredd amaethyddol. Cyhoeddodd y Gweinidog iddo sefydlu’r gweithgor tenantiaeth i geisio datrys y problemau hyn, ond does dim wedi digwydd eto.

    Yr wythnos diwethaf aeth Dennis i gyfarfod ar adferiad natur gan gwmni ymgynghori o Lundain. Un o'r pethau a gododd Dennis oedd y dirywiad mewn cynefinoedd oherwydd bod niferoedd y gwartheg yn gostwng.

    Soniodd Dennis am gynhadledd bwyd a ffermio cynaliadwy gan ymgyrch diogelu Cymru wledig ar 17 Medi. Bydd cyflwyniad gan Lywodraeth Cymru lle mae TFA yn cymryd rhan.

## Eitem 8 Unrhyw fater arall

66. Soniodd Marc Williams, CNC fod tîm Llethrau Llon CNC yn ystyried cynnal gweithdy cynllunio tanau gwyllt/tywydd eithafol neu gynhadledd newid hinsawdd yn 2023 cyn y tymor tanau gwyllt ym mis Mawrth. Byddai'r gweithdy/cynhadledd ar gyfer rheolwyr tir, llunwyr polisi ac ati gyda chymysgedd o weithdai, cyflwyniadau a stondinau fel y gall pobl arddangos eu gwaith o ran camau ataliol a rheoli'r dirwedd yn gynaliadwy yng Nghymru. Ar hyn o bryd mae'r tîm yn ymchwilio i logisteg lle a sut (yn bersonol gydag elfen hybrid bosibl) i gynnal y gynhadledd. Gofynnodd Marc i aelodau a fyddai ganddyn nhw ddiddordeb yn y digwyddiad hwn, a fyddai pobl yn debygol o fynychu'n bersonol, y lleoliad mwyaf addas ar gyfer y digwyddiad, a fyddai gan ffermwyr, coedwigwyr a rheolwyr tir eraill ddiddordeb mewn mynychu wyneb yn wyneb a pha bynciau eraill y dylid eu cynnwys ar agenda'r gynhadledd.

***PG Medi 06: Aelodau i gysylltu â Marc Williams, CNC gydag unrhyw adborth neu awgrymiadau ar gyfer gweithdy cynllunio arfaethedig y Gynhadledd Tanau Gwyllt/Tywydd Eithafol.***

67. Soniodd Zoe y bydd cyfarfodydd Bwrdd CNC yn cael diweddariad byr yn awr ar y Fforwm Rheoli Tir a'i is-grwpiau. Yn y gorffennol mae fforymau eraill wedi adrodd i Fwrdd CNC. Dywedodd Zoe ei bod yn bwysig iawn darparu diweddariadau amaeth a choedwigaeth ar lefel bwrdd yn rheolaidd ac mae'n falch iawn o gael y cyfle hwn. Diolchodd Zoe i Marc a Bronwen am lunio'r papur diweddaru byr gan ei fod yn tynnu sylw at broffil pwysig iawn y grŵp hwn. Soniodd Zoe fod ei thymor fel Cadeirydd y Fforwm i fod i ddod i ben ym mis Tachwedd 2022, ond ei fod wedi'i ymestyn tan fis Mai 2023.

68. Dywedodd Zoe fod cyfarfod Afonydd ACA ar 27 Medi. Mae Ffair Gêm Cymru ar y gweill ddydd Sadwrn 9 Medi ym Mangor hefyd.

69. Bu Martyn yn pwyso a mesur y cyfarfod a rhai o'r trafodaethau, yn enwedig beth ddylai fod ar frig yr agenda. Mae gan CNC ei rôl benodol ei hun ond mae'r hyn a godwyd mewn trafodaeth gynharach yn ymwneud â mater cyd-ddibyniaeth. Ni allwn gynhyrchu bwyd oni bai bod yr hinsawdd a'r fioamrywiaeth, dŵr a phriddoedd ategol yn hwyluso tyfu bwyd. Os byddwch chi'n rhoi bwyd ar frig yr agenda ar draul sicrhau adnoddau i bethau eraill fel yr argyfwng hinsawdd a natur, ni fyddwn yn gallu cynhyrchu bwyd na chwaith petaem ni'n canolbwyntio ar natur yn unig, er enghraifft, fyddwn ni ddim yn gallu cynhyrchu bwyd cynaliadwy. Dywedodd Martyn fod angen i ni feddwl a gweithredu yn y gofod hwn o gyd-ddibyniaeth.

70. O ran yr adolygiad dŵr, dywedodd Sian ei bod yn ymddangos yn syml iawn edrych ar ansawdd dŵr afon (e.e., ydyn ni'n monitro’n gywir, ydyn ni'n gwneud y rheoliadau cywir, ydyn ni'n rheoli digwyddiadau yn gywir ac ydyn ni'n ymateb yn y ffordd gywir). Fodd bynnag, pan fyddwn ni'n ehangu hynny i feddwl am bopeth sy'n effeithio ar ddŵr ac yn cael ei effeithio ganddo, yna mae'n troi'n rhywbeth llawer mwy. Ni allwn feddwl am ddŵr heb feddwl am reoli tir ac i'r gwrthwyneb. Ni allwn feddwl am ansawdd dŵr heb feddwl am faint o ddŵr sydd ar gael hefyd. Mae angen i'r holl bethau hyn ystyried pobl, hinsawdd a natur hefyd. Mae'n rhan o'r hyn y byddwn yn edrych arno dros y misoedd nesaf wrth adolygu popeth rydyn ni'n ei wneud â dŵr o ran ansawdd a faint sydd ar gael.

71. Y cyfarfod nesaf yw 5 Rhagfyr 2022. Anogwyd aelodau'r Fforwm i awgrymu eitemau a phynciau trafod posib - anfonwch nhw at Bronwen Martin, CNC.

***PG Medi 07: Aelodau'r Fforwm Rheoli Tir i awgrymu eitemau agenda posib a phynciau trafod ar gyfer cyfarfod mis Rhagfyr.***

## Diwedd y cyfarfod